# Adfent a Nadolig Pecyn Gweddïo

Yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (GDC), mae degawdau o wrthdaro ac ansefydlogrwydd gwleidyddol wedi sbarduno un o argyfyngau dyngarol mwyaf y byd. Mae trais rhwng nifer o grwpiau arfog a lluoedd y llywodraeth wedi gadael miliynau o deuluoedd heb unrhyw ddewis ond gadael eu cartrefi a'u bywoliaethau i chwilio am ddiogelwch.

O ganlyniad i wrthdaro, mae GDC ymhlith y pum gwlad dlotaf y byd. Amcangyfrifir bod dros 70% o'r boblogaeth yn byw ar oddeutu £1.50 y dydd y llynedd. Mae'r trais wedi difrodi seilwaith. Mae siopau a busnesau wedi cael eu difrodi ac mae cynulleidfaoedd eglwysig wedi dioddef ymosodiadau wedi'u targedu.

## Stori Chance

Pan ysgubodd gwrthdaro arfog drwy ei chymuned ym mis Chwefror, gwyddai Chance fod yn rhaid i'w theulu ddianc i oroesi. Gan gydio yn ei baban newydd-anedig a chasglu ei phlant eraill, ffodd Chance ar droed. Arhosodd ei gŵr ar ôl. Wrth i jetiau ymladd sgrechian uwchben ac i fomiau ddisgyn, teimlai Chance glwyf ei llawdriniaeth gesaraidd ddiweddar yn agor.

Gyda dewrder mawr, ceisiodd Chance loches yng Ngwersyll Katashola, sy'n cynnig diogelwch cymharol i bobl sydd wedi'u dadleoli. Yno, cafodd rywfaint o gymorth meddygol. Ond bellach, mae plant Chance yn llwglyd ac mewn perygl difrifol o ddiffyg maeth a malaria. Dywedodd Chance wrthym: **'Yma yn y gwersyll, mae pobl angen bwyd, dillad, caniau dŵr, sosbenni, blancedi a matresi.'**

Mae'r argyfwng dyngarol yn GDC yn un o'r argyfyngau newyn byd-eang mwyaf, gyda dros 27 miliwn o bobl angen bwyd. Gyda chyllid Cymorth Cristnogol, mae ein partner dibynadwy, ECC-MERU, yn rhoi grantiau o arian parod i'r rhai sydd fwyaf angen cymorth – fel teulu Chance.



Chance gyda'i babi Siborge.

## Mae angen cefnogaeth eich eglwys ar frys y Nadolig hwn.

Rydyn ni'n gofyn i chi ddefnyddio'r pecyn hwn yn eich gwasanaethau Adfent neu Nadolig neu grwpiau gweddi i weddïo dros deuluoedd sy'n ceisio lloches rhag rhyfel, ac i godi arian a all eu cefnogi i oroesi.

**Allech chi gasglu arian ar gyfer ein Hapêl Nadolig?**

**Neu godi arian drwy ganu carolau yn eich cymuned?**

**Edrychwch ar ein hadnoddau codi arian Nadolig i'ch helpu i gynllunio eich gwasanaeth neu'ch digwyddiad yn: caid.org.uk/Christmas**

**Gyda'ch cefnogaeth chi, gallai mamau fel Chance brynu bwyd maethlon, meddyginiaethau hanfodol a chynnyrch hylendid.** Gallai rhodd gennych chi ariannu llochesi brys, yn ogystal â dillad gwely a blancedi clyd i gysuro plant sydd wedi dioddef trawma.

Er bod Chance yn fam ddewr a galluog, mae ei hopsiynau'n prinhau - oherwydd sefyllfa sydd, yn dorcalonnus iawn, y tu hwnt i'w rheolaeth. Meddai: **'Byddai'n dda gen i pe gallech fy helpu i a'm cyfeillion sy'n dioddef fel fi. Helpwch ni, os gwelwch yn dda.'**

## Gweddi ymgynnull

Iesu, Mab Duw,
daeth dy enedigaeth â bugeiliaid a brenhinoedd at ei gilydd.
Tyrd â ni at ein gilydd heddiw fel un corff,
yn unedig mewn gobaith, llawenydd a heddwch.

Goleuni'r byd,
cefais dy eni i ddod â chyfiawnder a thrugaredd.
Goleua ein ffordd
a'n harwain ni ar lwybr gwirionedd a thosturi.

Plentyn sanctaidd, yn gorwedd mewn preseb,
roeddet ti'n gwybod beth oedd ystyr tlodi.
Gwna ni'n barod i dy garu a dy wasanaethu di
drwy wasanaethu'n gilydd yn gariadus.
**Amen.**

Wrth i ni ddod at ein gilydd mewn gobaith;
Goleuni'r byd, gwna ni'n barod.

Wrth i ni chwilio am dy bresenoldeb trawsnewidiol;
Gwawrddydd oddi uchod, adnewydda ni.

Wrth i ni ddod â'n gofidiau a'n hofnau atat ti;
Duw pob cysur, goleua ein tywyllwch.

Wrth i ni gynnig ein gweddïau a'n canmoliaeth i ti;
Seren wefreiddiol y bore, llenwa ni â dy holl ogoniant.
**Amen.**

## Ymatebion agoriadol
(Yn seiliedig ar Eseia 9)

Canys bachgen a aned i ni.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

Un sy'n cael ei alw'n Arweinydd Bendigedig, Duw Cadarn, Tad Bythol, Tywysog Tangnefedd.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

Mab a roddwyd i ni.
Bydd yn gyfiawn a theg.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

Rydyn ni'n gweld ei wyneb yn ein cymydog.
**Sut byddwn ni'n ei groesawu?**

## Gweddi ar gyfer yr Adfent a'r Nadolig

Tywysog Tangnefedd,
doedd gennyt ddim lle diogel i orffwys pan oeddet ti'n fabi.
Gweddïwn i ti heddiw dros bob plentyn sy'n cael ei orfodi i ffoi rhag trais.
Rydyn ni'n dod â theuluoedd a chymunedau sy'n dioddef ansefydlogrwydd ac ofn ger dy fron.
Yn ystod y tymor hwn o ddisgwyliadau gobeithiol, gweddïwn dros y rhai sydd ddim yn gwybod beth a ddaw yfory.
Heria ni, Arglwydd, i fyw yn ôl dy alwad i geisio byw mewn heddwch.
Rho derfyn ar yr holl wrthdaro a'n hysbrydoli i weithredu gyda chyfiawnder a chariad.
**Amen.**

## Gweddi ar gyfer gwasanaeth Nadolig - y geni

Dduw cariadus, wrth i ni ddod at ein gilydd i wrando ar stori genedigaeth Iesu Grist dy Fab,
diolchwn am lawenydd a chyffro'r Nadolig.
Gweddïwn i ti dros rieni, gofalwyr a phlant ym mhobman.
Yn enwedig, gweddïwn dros y rhai nad oes ganddynt le diogel i aros.
Gofynnwn i ti helpu'r plant hynny nad oes ganddynt, fel y baban Iesu, gwely na chrud heno.
Dangos i ni beth allwn ni ei wneud i newid ein byd,
fel bod pob plentyn yn rhydd i chwarae, gorffwys, tyfu a ffynnu.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu,
**Amen.**



## Stori Joyce

Mae Joyce yn ffermwr ac yn fam i bedwar o blant. Mae ei theulu cariadus yn cynnwys ei gŵr, Michel, tair merch ac un mab.



**Joyce, ei gŵr Michel, a'u pedwar o blant.**

Pan oedd Joyce yn feichiog iawn gyda'i merch Emiliana, roedd trais yn lledaenu yn y rhanbarth lle mae'r teulu'n yn byw yn GDC. Yr oedd Joyce yn ofni y byddai'r gwrthdaro'n cyrraedd eu cartref. Pan oedd y babi yn cael ei geni, gallai Joyce glywed bomiau'n syrthio gerllaw. Pan oedd Emiliana ond yn ddeufis oed, daeth milwyr i bentref Joyce a chafodd y teulu eu gorfodi i guddio yn y goedwig gyfagos. Roedd dychwelyd i'w cartref yn golygu cael eu dal neu farwolaeth.

Ffodd y teulu i Wersyll Bulungu ar gyfer pobl sydd wedi'u dadleoli. Dywedodd Joyce wrth Cymorth Cristnogol: **'Roedd Emiliana bron â marw. Clymais hi ar fy mrest a'i gorchuddio â blanced. Roedd hi'n gafael yn dynn ynddof. Roeddwn i'n ofnus ac yn meddwl: Ydw i'n mynd i farw? Ydy fy mhlant yn mynd i farw hefyd? Ro'n i'n gofyn i Dduw, os byddaf yn marw, pwy fydd yn gofalu am fy mhlentyn?'**

Yn anffodus, doedd bywyd yng Ngwersyll Bulungu ddim yn cynnig llawer o ryddhad. Roedd cyflenwad bwyd a dŵr yfed yn eithriadol o brin. Ar ôl dau ddiwrnod, roedd y teulu'n wynebu newyn a syched difrifol. Fe wnaeth Michel beryglu ei fywyd i ddychwlyd i'w gartref i gasglu pa gyflenwadau bynnag y gallai eu hachub.

Er bod y teulu wedi gallu dychwelyd i'w cartref yn llawn amser, mae'r trawma'n aros gyda nhw. Dywed Joyce: **'Drwy'r amser, dwi'n meddwl am y rhyfel. Os bydd yn cyrraedd yma, i ble fyddwn ni'n ffoi?'** Ychwanegodd: **'Mae'r pum mis ers i Emiliana gael ei geni wedi bod yn straen mawr. Dydi hi ddim hyd yn oed yn cael digon o amser i chwarae efo fi - ei mam - oherwydd yr ofn sydd arna i.'**

## Ein partneriaid yn GDC

Gan weithio mewn partneriaeth â'n partner dibynadwy, ECC-MERU, mae Cymorth Cristnogol yn darparu cymorth ariannol i ffoaduriaid, pobl sydd wedi cael eu dadleoli, a phobl sydd ar y cyrion yn GDC. Mae'r cyllid hanfodol hwn, sy'n cael ei alw'n Ffrwd Argyfwng Cronig, yn achubiaeth i deuluoedd sydd wedi gadael popeth ar ôl i oroesi.

Mae cynnig cymorth ariannol yn golygu gall pobl flaenoriaethu anghenion penodol eu hunain a phenderfynu sut i'w diwallu. Mae llawer yn dewis prynu cynhwysion bydd yn diogelu eu teulu rhag diffyg maeth. Mae eraill yn dewis dillad gwely a blancedi newydd ar gyfer eu plant yn lle'r rhai sy'n wedi cael eu gadael - gan helpu i wneud i lochesi dros dro deimlo ychydig yn fwy cartrefol. Gyda meddyginiaeth y tu hwnt i gyllideb llawer o aelwydydd, mae rhai'n dewis prynu triniaeth malaria sy'n achub bywydau. Mae ECC-MERU hefyd yn gweithio i gynyddu mynediad cynaliadwy at ddŵr yfed.



**Joyce yn treulio amser gwerthfawr a hamddenol gyda'i merch, Emiliana, a'i mab, Etien.**

# Gweddïau dros ein cymuned a’n byd

Arglwydd cariadus, bu dy fam roi genedigaeth mewn sied  wartheg yn bell oddi gartref.
Gweddïwn dros famau nad oes ganddynt ddewis ond rhoi genedigaeth mewn amodau peryglus, heb y gofal meddygol sydd arnynt eu hangen.
Gweddïwn dros rieni a gofalwyr sy’n cael eu gorfodi i ffoi o’u cartrefi gyda’u plant.
Boed i ti ddod â heddwch a chysur iddynt a boed iddynt ddod o hyd i ddiogelwch.
Arglwydd, yn dy drugaredd,
**Gwrando ein gweddi.**

Arglwydd cariadus, doedd gen ti ddim gwely na chrud ac roeddet ti’n cysgu mewn preseb o wair.
Gweddïwn dros blant sy’n tyfu i fyny heb lety diogel, na bwyd digonol a dŵr glân digonol.
Gweddïwn yn arbennig dros waith Cymorth Cristnogol gyda phartneriaid yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo.
Gofynnwn i ti amddiffyn urddas y rhai y mae gwrthdaro treisgar yn effeithio arnynt.
Boed iddynt gael y gefnogaeth sydd arnynt eu hangen i adeiladu dyfodol mwy diogel.
Arglwydd, yn dy drugaredd,
**Gwrando ein gweddi.**

Arglwydd cariadus, cefais dy eni ymysg pobl dan oresgyniad.
Gweddïwn dros y rhai sy’n byw gyda bygythiad trais a’r ofn a’r ansicrwydd a ddaw yn sgil gwrthdaro.
Gweddïwn yn arbennig dros...
[Enwau lleoliadau lle mae rhyfel  a gwrthdaro]
Dduw heddwch, rwyt ti’n bendithio heddychwyr.
Gweddïwn dros roi terfyn ar drais a diogelu sifiliaid.
Arglwydd, yn dy drugaredd,
**Gwrando ein gweddi.**

Arglwydd cariadus, ffodd dy deulu i’r Aifft i ddianc rhag erledigaeth.
Gweddïwn dros bawb sy’n byw mewn aneddiadau dros dro ymhell o’u cartrefi.
Gweddïwn dros y rhai sydd wedi colli eiddo a bywoliaethau.
Gweddïwn y bydd ein tosturi tuag at ein cymdogion byd-eang yn cryfhau ac yn tyfu, yn enwedig ein tosturi tuag at bobl sydd wedi’u dadleoli a ffoaduriaid.
Arglwydd, yn dy drugaredd,
**Gwrando ein gweddi.**

Duw cariadus, yn dy enedigaeth, dy fywyd a dy farwolaeth, fe ddangosaist ddyfnder ac uchder dy gariad tuag atom.
Gweddïwn dros y rhai sydd angen dy gariad a’th gysur.
Gweddïwn yn arbennig dros bawb sy’n sâl neu’n galaru.
[Enw yma unrhyw un rydych chi’n ei adnabod]
Arglwydd, yn dy drugaredd,
**Gwrando ein gweddi.**

Dduw cariadus,
derbynia’r gweddïau hyn er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr, Iesu Grist.
**Amen.**

# Gweddi i gloi

Dduw Hollalluog,
ar enedigaeth dy Fab, cyhoeddodd yr angylion y newyddion da:
rhyddid rhag ofn, tangnefedd ar y ddaear, llawenydd helaeth.
Boed i ni fyw yn unol â’r addewid gwych hwn.
Gwna ni’n negeswyr,
yn ein geiriau a’n gweithredoedd,
wrth i ni weithio i weld dy deyrnas ar y ddaear.
**Amen.**

# Gweddi o Fendith

Ewch mewn gobaith, bod byd tecach a mwy cyfiawn nid yn unig yn bosibl, ond wedi’i addo.
Ewch mewn heddwch, gan estyn llaw mewn undod i gymdogion pell ac agos.
Ewch mewn cariad, yn barod i weld delwedd Duw ym mhob wyneb rydych chi’n cwrdd ag ef.
Ewch mewn llawenydd, gan ragweld yr Enedigaeth sy’n cymodi pob creadigaeth.

Boed i oleuni bendigedig Duw
fod yn lamp i arwain
eich traed ar lwybr cyfiawnder.
A boed i’r Arglwydd heddwch ei hun
rhoi heddwch i chi bob amser ym mhob ffordd.

cymorth cristnogol 80 mlynedd

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851  Scot charity no. SC039150 Company no. 5171525  Christian Aid Ireland: NI charity no. NIC101631  Company no. NI059154 and ROI charity no. 20014162  Company no. 426928  The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid. © Christian Aid September 2025 Photos: Christian Aid/Esther Nsapu  J537837